PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 40 | Hydref 5, 2023 | 50c.

## Cyfarfod sefydlu y Parchg Ddr Emyr Gwyn Evans

Roedd nos Fercher, 20 Medi yn noson fawr yng nghapel Gellimanwydd. Cynhaliwyd cwrdd sefydlu'r Parchedig Dr Emyr Gwyn Evans, yn weinidog i Iesu Grist yn eglwysi Gellimanwydd, Rhydaman a Moreia, Tycroes.

### Urddasol

Cyn weinidog Gellimanwydd a chyn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, y Parchg Dewi Myrddin Hughes oedd yn llywyddu a hynny'n gelfydd ac urddasol. Un o feibion Moreia oedd yn cyflwyno yr Alwad i Addoli sef y Parchg D. Eirian Rees, Efailisaf. Yna cawsom ddarlleniad gan y Parchg Ken Thomas a gweddi gan y Parchg Eirian Wyn Lewis, y ddau o ardal enedigol Emyr Gwyn Maenclochog a Mynachlog-ddu. Roedd y sefydlu yng ngofal y Llywydd.

Rhoddodd Mrs Bethan Thomas, ysgrifennydd y pwyllgor gwaith, hanes yr alwad, gan gynnwys hanes agos y ddwy eglwys, cyn i un o gyn aelodau Gellimanwydd, y Parchg Guto Llywelyn gyflwyno yr Urdd Weddi. Un o gymwynaswyr y ddwy eglwys y Parchg Glan Roberts, Tycroes gyflwynodd yr Emyn Urddo. Yna cawsom air o gyflwyno gan Mrs Elonwy Phillips ar ran Gofalaeth Bröydd Myrddin a Miss Rhiannon Mathias ar ran Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Mr Edwyn Williams oedd yn croesawu ar ran Gellimanwydd a Moreia, Mr Gethin Thomas ar ran Cyfundeb Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog ac ar ran eglwysi'r cylch y Parchg John Talfryn Jones. Y Parchg Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a chyn weinidog Gellimanwydd a Moreia oedd yn traddodi'r Bregeth. Yr organydd oedd Mr Rhys Thomas. Ac i gloi oedfa gyfeillgar arbennig offrymwyd y Fendith gan y Parchg D. Gerald Jones.

Wedi'r oedfa aeth y gynulleidfa luosog i neuadd Gellimanwydd i gymdeithasu yng nghwmnïaeth ein gilydd drwy rannu cwpanaid o de a lluniaeth ysgafn.

Roedd yn bleser cael bod yn yr oedfa gynnes gyfeillgar arbennig hon ar ddechrau hanes newydd y ddwy eglwys.



## DATHLIAD DWBWL CANA, BANCYFELIN



Profiad hyfryd oedd gweld capel Cana, ger Bancyfelin yn llawn hyd yr ymylon nos Sul 17 Medi 2023 mewn noson arbennig i ddathlu 200 mlwyddiant yr Achos ac i ddathlu ailagor y capel wedi ychydig o waith adnewyddu diweddar.

### 200 mlwyddiant

Agorwyd drysau Cana yn 1821 yn dilyn aberth ac ymdrechion nifer o ffyddloniaid yr ardal i godi capel a fyddai'n gartref i achos yr Annibynwyr a sefydlwyd yn 1820.

Ymlwybrodd pobl yn dawel i Lwynderw, cartref nepell o safle presennol Cana, mor bell yn ôl â 1815 pan fyddai cyrddau gweddi ac ysgol Sul yn cael eu cynnal ar amryw o aelwydydd yr ardal, cyn bod sôn am sefydlu achos. Bu pregethwyr cynorthwyol yn ymweld â'r aelwydydd yn gyson nes dechrau'r gwaith o godi capel Cana, ar ddarn o dir lle teflid sbwriel a gwastraff yr ardal. Bu cyfeillion

*parhad ar dudalen 2*

## DATHLIAD DWBWL CANA, BANCYFELIN – parhad

yn cyrchu cerrig ychwanegol o’r cwar gyda cheffyl a chart er mwyn gosod sylfaen i’r capel. Wedi cwblhau’r gwaith o godi’r capel, corfforwyd eglwys yno gan David Peter y flwyddyn ganlynol.

Pan adeiladwyd Cana, dewis y bobl oedd gosod ffenestri clir yn yr adeilad fel bod pawb o’r tu allan yn gallu gweld i mewn iddo, ond yn bwysicach fyth, fel bod y sawl sy’n cwrdd y tu mewn i’r adeilad yn gallu gweld allan i’r byd. Er i’r ffyddloniaid gwrdd y tu mewn i Gana ers dwy ganrif, nid gweledigaeth fewnblyg fu gan yr eglwys ar hyd blynyddoedd hir ei hanes. Yn hytrach, gweledigaeth fwy eang o lawer, ac awydd i fod yn offeryn yn llaw Duw i dystiolaethu i’r fro gyfan ac i’r byd. Wrth ddiolch am ddwy ganrif o dystiolaeth, diolchwn fod yr un weledigaeth yn dal i feddiannu calonnau aelodau Cana heddiw. Mae cymdeithas glòs a chynnes o hyd ac awydd ymysg yr aelodau i dystio i Iesu hyd eithaf eu gallu.

### Cana, mi gana

Bu’r dathliad nos Sul 17 Medi yn gyfuniad o ganu cynulleidfaol dan arweiniad brwdfrydig Meinir Richards, Llanddarog ac i gyfeiliant band capel y Priordy. Cafwyd cyfraniadau hynod o werthfawr i’r noson gan Gôr Bois y felin, Bancyfelin a Chôr Seingar, Caerfyrddin ynghyd â’r tenor Dafydd Wyn Jones, Llanrhaeadr Dyffryn Clwyd, a fu hefyd yn canu deuawd gydag Elin Wyn James. Llywydd y noson oedd John Thomas, Y Bontfaen, un o deulu Derllys sydd wedi bod yn ffyddlon i’r achos yng Nghana ers cenedlaethau. Mae John a’i briod Carol yn teithio’n gyson ar y Sul o’r Bontfaen i addoli yng Nghana. Derllys gyda llaw oedd cartref Madam Bridget Bevan a fu’n cefnogi Gruffydd Jones i sefydlu ysgolion cylchynol.

Do, bu’n noson a fydd yn aros yn y cof, ac yn ddathliad teilwng o ddwy ganrif o dystiolaeth i’r Arglwydd Iesu Grist yn y fro. Noson i godi’r ysbryd ac i’n hannog i ddal ati gyda’n gwaith. Gweddïwn y bydd Cana yn parhau i belydru goleuni Crist am flynyddoedd lawer eto.

**Beti-Wyn James**

# Harddwch Iesu

Cofiaf ymweld rai blynyddoedd yn ôl gydag amgueddfa y Louvre ym Mharis sy’n llawn o drysorau amhrisiadwy. Yn eu plith y mae un o ddarluniau enwog yr athrylith Leonardo da Vinci sef y Mona Lisa. Am ryw reswm mae’r darlun hwn – sydd ychydig mwy na stamp ail ddosbarth – yn creu cyfaredd dorfol ymhlith yr ymwelwyr. Pan euthum i yno roedd cannoedd o bobl wedi tyrru o flaen y darlun olew wedi gwirioni ar y gwrthrych ac yn tynnu lluniau dirifedi.



Onid ydym fel dynoliaeth yn reddfol yn hoffi edrych ar bethau hardd a chain ac yn barod i dreulio amser yn myfyrio arnynt a’u dadansoddi. Dyma pam fod y National Gallery yn Llundain mor boblogaidd. Yn 2019 fe ymwelodd 6 miliwn o bobl â’r oriel hon. Gostyngodd y cyfanswm hwn i 3.3 miliwn yn 2022 o ganlyniad i effeithiau Covid-19. Ond mae hynny fel petai holl boblogaeth Cymru yn mynd i mewn i’r oriel.

Mae Salm 96 yn fynegiant o addoliad sy’n myfyrio ar harddwch yr Arglwydd. Ynddi mae brawddegau cofiadwy fel, ‘Gogoniant a harddwch sydd o’i flaen ef; nerth a hyfrydwch sydd yn ei gysegr’ ac ‘Addolwch yr Arglwydd mewn prydferthwch sancteiddrwydd.’

Mae Duw yn brydferth a hardd ac y mae hyn yn gyfareddol i ni ac wrth agor ein meddyliau i’w harddwch cawn ein hysgogi i wneud 3 pheth, sef ei addoli, bod yn debyg iddo ac i’w wasanaethu.

Nid yw hyn yn dod yn fwy i’r amlwg yn unman nac yn yr Efengylau sy’n disgrifio yn ddigon syml hanes yr Iesu. Mae’r Iesu yn berson hardd. Darllenwch y tri hanes yn Efengyl Marc pennod 6 adnodau 30–56 sy’n adrodd am borthi’r pum mil, cerdded ar y dŵr ac iachau’r cleifion yn Genesaret. Myfyriwch ar y geiriau hyn yn bwyllog gan ganolbwyntio ar Iesu, ei ymddygiad, ei natur a’i ymateb i’r bobl a ddaw i gysylltiad â hwy.

Yma gwelwn harddwch rhyfeddol ei berson – nid yn ei bryd a’i wedd – ond ei natur unigryw. Yn y tri hanes gwelwn ei ofal tros ei ddisgyblion, ei drugaredd tuag at bobl oedd yn ei ddilyn a’i gariad tuag at y cleifion. Gwelwn ei ddwyfoldeb yn dod i’r amlwg yn ei wyrthiau o amlhau y bara a’r pysgod, trwy dawelu’r môr brochiog a thrwy iachau cleifion. Ynddo Ef y mae prydferthwch dynol yn llewyrch. Iesu yw’r unig berson cyflawn sydd wedi troedio’r ddaear, yr unig berson sydd yn ymddwyn fel y bwriadodd Duw i bawb ohonom ymddwyn. Yr unig berson perffaith.

Ac wrth fyfyrio ar ei harddwch mae addoliad yn cyniwair yn ein calon ac awydd i fod yn debyg iddo ac awydd i’w wasanaethu. Myfyriwch ar harddwch yr Arglwydd:

Mae’r Iesu’n fwy na’i roddion,
mae ef yn fwy na’i ras,
yn fwy na’i holl weithredoedd
o fewn ac o’r tu faes;
pob ffydd a dawn a phurdeb,
mi lefa’ amdanynt hwy,
ond arno’i hun yn wastad
edrycha’ i’n llawer mwy.

Gweld wyneb fy Anwylyd
wna i’m henaid lawenhau
drwy’r cwbwl ges i eto
neu fyth gaf ei fwynhau;
pan elont hwy yn eisiau,
pan byddaf fi yn drist
tra caffwyf weled
wyneb siriolaf Iesu Grist?

WILLIAM WILLIAMS, 1717–91

**Alun Tudur**

*(o’r blog Sabothal.blog 17 Medi 2023)*


**Cylch Cymanfa Gorllewin Myrddin**

**Cynhelir Gymanfa Ganu Cylch Gorllewin Myrddin**

**8 Hydref, 2023**

Plant 10:30yb
Oedolion 1:30yh a 6:30yh
yng nghapel Bryn Iwan, Cynwyl Elfed

Dan arweinyddiaeth Dr Huw Rees, Caerdydd

Croeso cynnes i bawb i ymuno gyda ni i ganu moliant i’r Arglwydd.

Yr Adran Gydenwadol

HYDREF 5 2023 RHIF 136

# Agor y Llyfr yn ardal Aberystwyth




Mae Agor y Llyfr yn brosiect cyffrous i rannu straeon Beiblaidd gyda plant, a hynny mewn ffordd hwyliog, rhyngweithiol a chofiadwy. Braf iawn oedd cwrdd â rhai o ddarllenwyr *Cenn@d* sydd yn barod yn Storïwyr yn Aberystwyth a'r cyffiniau mewn Sesiwn Hyfforddiant yng Nghapel y Morfa yn ddiweddar.

Efallai ichi ddarllen erthygl Aled yn rhifyn 125 o *Cenn@d* yn adrodd ar lansiad ein hadnoddau newydd, sef *Beibl y Storïwr* gan Bob Hartman a Llawlyfr y Storïwr (y canllaw sy'n cyd-fynd â *Beibl y Storïwr* ac sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom er mwyn cyflwyno'r hanesion). Ar hyn o bryd mae tua chant o dimau yng Nghymru sy'n ymweld ag ysgolion cynradd, a chwarter o'r rheiny yn dimau Cymraeg eu hiaith.

Roedd yn dda clywed am yr ymateb cadarnhaol o'r ysgolion wrth iddynt dderbyn y timau, ac am ymateb brwdfrydig y plant wrth iddynt wrando a chymryd rhan yn y gwasanaethau. Roedd hefyd yn galonogol croesawu sawl darpar Storïwr a chlywed am eu dymuniad i ymestyn y rhwyd a dechrau ymweld ag ysgol arall yn yr ardal.

Erbyn hyn, rydym yn tristáu nad oes llawer o ysgolion Sul yn cael eu cynnal yn ein capeli. Mae Agor y Llyfr yn adnodd gwerthfawr ac effeithiol sy'n ein galluogi i fynd â'r Beibl at blant ein cymuned, er mwyn iddynt cael cyfle i glywed a mwynhau'r hanesion o'r Beibl sydd mor annwyl a phwysig i ni.

Mae'r adnoddau hyfryd yn ei gwneud yn haws i ni fentro ar y gwaith ac mae hyfforddiant craidd ar gael, ynghyd â chefnogaeth gyson gan swyddogion Agor y Llyfr. Os hoffech wybod mwy am Agor y Llyfr, cewch hyd i lawer o wybodaeth ar wefan Open the Book neu mae croeso i unrhyw un gysylltu â mi: sarah.morris@openthebook.net.

*Sarah Morris*



# *Cysuro'r Claf: Ysbrydoledd mewn ysbyty* (Eric Jones)


Wedi gweinidogaethu yn Llansannan a Bangor am gyfnod da, rhoddodd y Parch. Eric Jones gyfrif yr un mor dda ohono'i hun fel gweinidog cydwybodol a chyfeillgar.

Yn naturiol, yng nghyfnod Bangor, ac Ysbyty Gwynedd ar garreg y drws, ac fel sawl gweinidog arall yn y ddinas honno, rhoddodd Eric gyfrif da ohono'i hun hefyd fel un o gaplaniaid Ysbyty Gwynedd. Gwnaeth ei waith yma eto yn gydwybodol, gan gymryd diddordeb ym mywydau'r cleifion a dod yn agos at y profiadau mwyaf ingol sy'n taro pobl ar daith bywyd.

Do, bu iddo gael ei wahodd i draddodi'r Ddarlith Davies yng Nghymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2021 yn Seilo, Caernarfon, a dewisodd destun oedd wrth fodd ei galon sy'n sail i'r gyfrol yma.

A gwych o syniad oedd ei chyhoeddi'n gyfrol hylaw, werth ei darllen, ac mae hi'n darllen yn rhwydd – yr iaith yn ystwyth, y gwaith ymchwil yn fanwl, y lluniau'n ddiddorol, a diwinyddiaeth gadarn Gristganolog yn sylfaen iddi.

Mae pob rhan o'r llyfr yn ddiddorol, ond i mi'n bersonol mae cyplysu 'Ysbrydoledd' a 'Gweddi' wedi cael ei drafod yn hynod effeithiol. Ac mae'r bennod 'Gwerth Gweddi' yn dadansoddi'n glir sut mae defnyddio doethineb wrth drafod gweddi yng nghyd-destun cleifion a theuluoedd, ac wrth gwrs yng nghyd-destun staff yr ysbytai. Mae llun o Goeden Weddi mewn ysbyty'n ddiddorol, ag enwau a cheisiadau'n cael eu rhoi ar y goeden, ac un cais yn benodol arni: 'Jesus, heal my husband or I'll rip up the picture I have of you on our landing'. Wrth gwrs, mae'n rhaid i'r caplan, fel pob gweinidog ac offeiriad, mewn sefyllfa o argyfwng, fod yn barod i wrando ar feirniadaeth fel yna tuag at Dduw a thuag at y caplan. Rhaid hefyd bwysleisio bod gweddi syml yn gynhaliaeth gadarn i lawer claf a theulu.




Rhywbeth pwysig arall, wrth gwrs – ac efallai y byddech chi'n disgwyl i mi ddweud hynny – yw gwerth cerddoriaeth a chanu, a chanu emynau. Mae stori am un nyrs yn canu emyn David Charles, 'O Iesu mawr, rho d'anian bur …' wrth fynd o gwmpas ei waith wedi i'r ymwelwyr droi am adref gyda'r nos, ac un o'r cleifion ar y ward, oedd yn derfynol wael, yn gofyn iddo ailganu pennill cyntaf yr emyn hwnnw:

> O Iesu mawr, rho d'anian bur
> I eiddil gwan mewn anial dir,
> I'w nerthu drwy'r holl rwystrau sy
> Ar ddyrys daith i'r Ganaan fry.

Yn yr un adran hefyd y mae llun o Reolwr Caplaniaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – y Parch. Wynne Roberts, yr 'Elvis' Cymraeg – yn canu i'r cleifion, a gwn am fwy nag un sefyllfa benodol lle mae Wynne wedi bod yn gymorth efo canu i gleifion. Bu Wynne a minnau'n gydweithwyr ym Mhorthmadog am gyfnod ac yn gyfeillion da, ac wedi iddo fynd i fyd a maes caplaniaeth ysbytai, yr oedd ei empathi cerddorol a'i bersonoliaeth yn gymorth mawr.

Un peth hollbwysig yw nad oes dim arlliw o hunan-bwysigrwydd yn y gyfrol. Mae'n llawn gostyngeiddrwydd a chydnabyddiaeth o wasanaeth caplaniaid eraill. Yn goron ar y cyfan, mae dibyniaeth lwyr yr awdur ei hun ar nerthoedd a chysuron Efengyl Iesu Grist, a hynny wedyn yn arwain at drosglwyddo'r nerthoedd a'r cysuron hynny i eraill.

Dyma gyfrol y dylai unrhyw un sydd yn y gwaith o gysuro a chynnal cleifion ei darllen. Diolch, Eric, amdani.

*Iwan Llewelyn*

(Cyhoeddwyd gan Wasg y Bwthyn; 48tt; pris: £6.95)




Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

Mae **Undeb Bedyddwyr Cymru** yn awyddus i benodi

## Gweinyddydd

**(dros dro yn ystod cyfnod o absenoldeb mamolaeth, 16 awr yr wythnos)**

**Lleoliad**: Swyddfa Undeb Bedyddwyr Cymru, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin

**Pwrpas y Swydd**: Cyflawni ystod eang o ddyletswyddau gweinyddol er mwyn sicrhau bod y swyddfa yn rhedeg yn esmwyth

Gofynnir am o leiaf 2 flynedd o brofiad perthnasol, cymhwyster priodol, ynghyd â'r gallu i ddefnyddio Microsoft Office 365.

Am fwy o fanylion a ffurflen gais, cysylltwch â Mrs Gwen Lye-Phillips – post@ubc.cymru

Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â'r Parchedig Judith Morris neu Mr Nigel Vaughan – 0345 222 1514


Cyflog: Graddfa UBC £21,545.81–£22,343.24 pro rata

Dyddiad Cau: 27 Hydref 2023

# *Gair Duw ar Waith*

## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 2**
**Banc Bwyd  Genesis 41:37–49 | 8 Hydref**

### Gweddi

Plygwn o'th flaen, Arglwydd, yn ein myfyrdod, gan ddiolch am y bwyd sydd ar ein bwrdd bob dydd. Byddwn yn medru tyfu neu brynu bwydydd iach a blasus gan wybod bod y dewis sydd gennym yn eang. Helpa ni i feddwl heddiw am y rhai sydd heb yr incwm priodol i gwrdd â'u holl gostau ac sy'n gorfod dewis rhwng talu biliau neu brynu bwyd i'r teulu. Amen.

### Darlleniad: Genesis 41:37–49

### Cyflwyniad

Bydd hanes Joseff yn gyfarwydd i bawb, ac yntau wedi ei werthu fel caethwas i'r Aifft gan ei frodyr cenfigennus. Cododd ei statws o fod yn garcharor i fod yn brif weinidog yr Aifft, a hynny am fod ganddo'r ddawn i ddehongli breuddwydion a threfnu'n dda. Ar ddechrau pennod 41 cofnodir breuddwydion Pharo am y saith buwch denau yn bwyta'r saith buwch dew, a'r saith dywysen denau yn llyncu'r saith dywysen dew. Dehonglodd Joseff y breuddwydion i rag-weld saith blwyddyn ffyniannus ac yna saith mlynedd heb gnydau, a bod angen darparu yn y cyfnod o lewyrch ar gyfer y cyfnod o newyn. Cafodd Joseff y gwaith gan Pharo o drefnu i storio bwydydd yn y saith blwyddyn dda ar gyfer y saith mlynedd wael. Yn ddiweddarach yn yr hanes daeth brodyr Joseff o Ganaan i chwilio am fwyd, ac mae'r hanes yn gorffen gyda chymod rhwng y teulu cyfan.

### Myfyrdod

Bydd pob teulu doeth yn cynilo mewn cyfnod o ddigonedd er mwyn cynnal eu hunain mewn cyfnod o brinder. Bydd rhai, fel actorion neu'r sawl sydd heb waith cyson, yn gorfod dysgu'r egwyddorion sylfaenol hyn. Beth am y bobl sydd heb ddigon yn y lle cyntaf, ac yn ôl yr hen air yn 'dal llygoden a'i bwyta'? Yn yr un modd, mewn gwledydd lle ceir sychder mawr am sawl blwyddyn, fel yng ngogledd cyfandir yr Affrig, nid oes economi ddiogel i sicrhau unrhyw gynilo, ac maent yn aml yn bwyta'r tatws had heb syniad beth i'w blannu ar gyfer y tymor nesaf. Daw enwau gwledydd fel Eritrea ac Ethiopia yn sydyn i'r cof o argyfyngau'r gorffennol.

Yr un math o ing a ddaw'n brofiad i'r teuluoedd ym Mhrydain sydd yn aml yn gweithio, fel nad ydynt yn medru hawlio nawdd cymdeithasol, ond heb ennill digon i dalu costau sylfaenol bywyd ac yn gorfod gwneud dewisiadau anodd yn rheolaidd. Nodwedd gyfarwydd ym Mhrydain bellach yw'r Banciau Bwyd, a bu'r eglwysi ar flaen y gad yn casglu bwydydd sych neu mewn tuniau ar eu cyfer. Bydd y teuluoedd tlawd hyn yn cael talebau gan weithwyr cymdeithasol neu ganolfannau meddygol sy'n eu galluogi i gasglu bagiaid o nwyddau cyfwerth â thri diwrnod o fwyd i'w helpu ar eu taith. Prin bod hyn yn ddelfrydol, ond mae'n cwrdd â gofynion y dydd. Dyma enghraifft o eglwys ar waith.

Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 dosbarthodd banciau bwyd sy'n rhan o rwydwaith Ymddiriedolaeth Trussell bron i 3 miliwn o barseli bwyd brys i bobl oedd yn wynebu caledi ar hyd a lled Prydain – sef cynnydd o 37% o'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Dosbarthwyd dros filiwn o'r parseli hyn i deuluoedd lle mae yna blant. Yng Nghymru gwelwyd cynnydd o 100% yn y galw am gymorth rhwng 2018 a 2022. Yn 2018 tua 94,000 o becynnau a ddosbarthwyd, ond erbyn 2022 roedd y nifer wedi codi i 185,000 o becynnau. Diolch i bawb mewn eglwysi ar hyd a lled Cymru sy'n helpu i drefnu'r gwaith hwn.

Gall pawb gynorthwyo drwy brynu rhywbeth ychwanegol wrth siopa, a'i adael yn y capel. Nid pawb sydd yn medru bod yn y festri ar brynhawn Sul yn gweini bwyd i'r digartref, ond bydd prynu eitem ar gyfer y gwasanaeth hwn yn bosibl i bawb. Gallwn ddyfynnu geiriau Iesu eto o ddameg y Defaid a'r Geifr (Mathew 25), 'Yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch.'

### Gweddi

Trugarha wrthyf, Arglwydd, am boeni gormod am ymborth fy mwrdd i, heb feddwl am yr hyn sydd ar fwrdd y rhai sydd heb fodd i gynllunio bwydlen iach i'w teuluoedd. Diolchwn heddiw am y cyfeillion sy'n cydlynu cynllun y Banciau Bwyd, ac yn effro i'w rannu'n deg gyda'r anghenus yn ein broydd. Agor fy llygaid i weld y cyfle ac i weithredu gyda llu o gymunedau ffydd eraill a mudiadau dyngarol ledled Cymru, ac ar draws y byd. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1. Ai doethineb darbodus oedd fod Joseff wedi cynnig arweiniad i Pharo, neu gynllun rhyfeddol Duw yn trefnu bod eiddigedd hunanol y brodyr yn arwain at daith y breuddwydiwr i'r Aifft?
2. Beth sy'n cael ei ddweud am Dduw Israel yn hanes Joseff?
3. Ydy hi'n haws uniaethu ag apêl leol i gynorthwyo cymydog drwy estyn rhodd i fanc bwyd mewn ysgol neu eglwys yn hytrach na chefnogi apeliadau dyngarol fel Water Aid neu War on Want?
4. Clywsom lawer am arswyd pobl yn nwyrain Libya yn ddiweddar, gyda 25% o'r boblogaeth wedi marw neu ar goll yn dilyn y llifogydd. Fyddwch chi'n gweld cefnogi apêl UNICEF neu Gymorth Cristnogol yn rhan o'ch gweddïo ymarferol chi?
5. A yw gweld gwastraff bwyd yn codi mesur o dristwch ac euogrwydd ynom?

S4C

**Sul, 8 Hydref, am 7.30yh**
Bydd Nia Roberts yn ymweld ag arfordir Ceredigion ar drywydd un o deuluoedd mwyaf llengar a diwylliedig Cymru, Teulu'r Cilie. Yn cadw cwmni iddi fydd Dafydd Iwan a Jon Meirion Jones. Daw'r emynau o Gapel y Wig, Llangrannog, a chawn berfformiad gan ferched Clwb Ffermwyr Ifanc Caerwedros.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 8 Hydref, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Esyllt Maelor

**Sul, 8 Hydref, am 12yp**
Oedfa dan ofal Jamie Medhurst, Aberystwyth

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Newid byd wrth fynd i goleg

*Dyma brofiad un fyfyrwraig o fynd i'r brifysgol.*

Mae mynd i goleg neu brifysgol yn amser o newid mawr i bobl ifanc, ond mae'n amser cyffrous hefyd, i ddechrau meddwl drostynt eu hunain, mae'n amser llawn cyfleoedd newydd i ddysgu ac i fwynhau. Bydd yn gyfle i gwrdd â phobl o bob man. Medrwch fod yn siŵr y bydd Undeb Cristnogol yno ynghanol y bwrlwm i gyd.

## Beth yw'r Undeb Cristnogol?

Mae'r Undeb Cristnogol yn grŵp o fyfyrwyr sy'n Gristnogion sy'n rhoi cyfle i bob cyd-fyfyriwr gael cyfle i glywed ag ymateb i'r newyddion da am Iesu. Mae yna undeb Cristnogol ym mwyafrif o brifysgolion y deyrnas unedig ag yn hawdd ffeindio wrth roi'r testun yn syml ar y we.

## Lle saff

O brofiad mae'r Undeb Cristnogol yn fan saff i drafod beth sy'n poeni myfyrwyr, rhannu strygls prifysgol gyda'n gilydd â'u codi mewn gweddi i'r Arglwydd. Mae'n lle hefyd i rannu a dysgu mwy am y llawenydd cadarn, digyfnewid yng Nghrist, sydd mor bwysig yn amgylchedd y brifysgol ac yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywyd y brifysgol. Mae hefyd yn gyfle i gael hwyl.

## Tips setlo mewn i'r brifysgol

Dyma dri phwt o gyngor i unrhyw un sy'n mynd i'r brifysgol:

- Rhoi cyfle ac amser i undebau gwahanol, hyd yn oed rhai sy'n cael chi allan o'ch lle cysurus.
- Beth am roi tro ar eglwys leol? Mae'n lle gwych i gwrdd â phobl groesawgar lleol sydd hefo'r cymorth gorau, a lle cewch chi'r croeso mwyaf. Mae mwy o wybodaeth am eglwysi lleol ar instagram a facebook yr undebau
- Ewch gyda ffrind neu gymdeithas ar daith o'ch dinas neu dref, ewch am antur! Ffordd wych i ddod o hyd i'r caffis a'r bwytai gorau hefyd. Cymorth sydd ar gael gan yr Undeb Cristnogol i fyfyrwyr.

## Dod i adnabod

Yn Aberystwyth, ac mewn prifysgolion eraill dros Gymru, mae yno lawer o gyfleoedd er mwyn dod yn gyfarwydd â'r Undeb Cristnogol ac i ffeindio allan amdano adeg Wythnos y Glas. Digwyddiadau megis barbeciw, cyfle i fynd gyda chyd fyfyrwyr i drio allan eglwysi gwahanol lleol, cinio cymdeithasu ym Mhantycelyn, taith fwyd o amgylch yr eglwysi'r dref gyda mwy o fwyd am ddim, er mwyn cwrdd ag arweinwyr, a llawer mwy i edrych ymlaen ato.

Bydd unigolion yr undeb yn hapus iawn i ateb unrhyw gwestiynau am fywyd prifysgol, a rhoi croeso mawr i unrhyw fyfyrwyr newydd, croesawu myfyrwyr sy'n parhau yn eu holau, pobl sy'n Gristnogion, rhai sy'n cwestiynu, neu rhai sydd heb ddim diddordeb mewn ffydd. Y gobaith yw ei fod e'n rhywle cyfforddus i ofyn cwestiynau mawr bywyd, a bod modd dod o hyd i rai atebion hefyd, a'r cyfan yn arwain y ffordd yn ôl at Iesu a'i obaith Ef.

Felly os ydych chi'n fyfyriwr, mae croeso mawr i chi, a bydd yr Undeb Cristnogol yn hoff iawn o gwrdd â chi. Neu os ydych chi'n rhywun sydd â phlentyn neu wyrion yn y brifysgol, soniwch am yr Undebau Cristnogol, eu holl ddigwyddiadau, a'r amgylchedd saff a cysurus sydd yno.

## Profiad personol

Fel myfyriwr cefais lawer o gyfleoedd a chymorth cadarn, wedi ei seilio ar y Beibl, i rannu'r efengyl gyda fy nghyd-fyfyrwyr. Er enghraifft wrth rannu te a thost yn fisol roeddem yn cael sgyrsiau dwfn, hir, am gwestiynau mawr bywyd, yr efengyl a pham fod Iesu yn berthnasol i ni. Roedd yn wych un noson i esbonio mai Iesu yw Duw yn y cnawd, â'i dduwioldeb Ef, nid ei fod dim ond yn berson da, ond ei fod E'n Dduw a gwaredwr sydd dal yn fyw heddiw. Mae hefyd wedi bod yn wir fendith i ddarllen ag astudio'r Beibl yn y Gymraeg mewn grŵp bach, felly yn edrych ymlaen fod yn rhan o hyn yn fy swydd fel gweithwraig gyda Relay. Hefyd yn parhau i annog Cristnogion Cymraeg yn eu ffydd ac i roi cyfle i fyfyrwyr glywed yr efengyl yn eu mamiaith.

## Swydd gyda Relay

Mae Relay yn swydd a chwrs cenhadol ôl-radd gyda UCCF (Universities and Colleges Christian Unions). Fy ngwaith i dros y deg mis nesaf yw helpu ac annog yr undebau Cristnogol a'r myfyrwyr yn Aberystwyth a Llanbed, eu helpu nhw i ddod i ddeall pwy yw Iesu, profi ei galon ef drosom ni, dilyn ei genhadaeth, a gweld beth mae hynna i gyd yn eu golygu iddyn nhw. Mae mwy o wybodaeth i'w gael am y gwaith hwn: uccf.org.uk/relay

**Esyllt Thomas**




## Hanes yr Eglwys

**Hoffech chi ddilyn cyfres ar Hanes yr Eglwys?**
**Yna, mae croeso cynnes i chi ymuno â ni.**




Arweinir y gyfres gan
Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor, LL.B., B.D.
*Gweinidog yng nghylch Llandysul, a chyn athro yn y Coleg Coffa, Aberystwyth*



Lleoliad
Festri Capel Heol Awst, Caerfyrddin
*Heol Awst, Caerfyrddin, SA31 3AP*

Dyddiadau ac Amser
Cynhelir 8 sesiwn
Dyddiau Llun,
Hydref 9, 16, 23, 30, a Tachwedd 6, 13, 20 a 27
1:30 - 3:30 o'r gloch.

"Yr oeddent yn dyfalbarhau yn nysgeidiaeth yr apostolion ac yn y gymdeithas, yn y torri bara ac yn y gweddïau".
Actau 2:42




Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall, Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau
01792 795888 I carwyn@annibynwyr.cymru

Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## Barn Annibynnol

# Technoleg, 'Gwybodaeth Artiffisial' a galar!



Wn i ddim amdanoch chi, ond dw i'n casáu'r systemau electronig yma sy'n 'siarad' â chi dros y ffôn cyn i chi gael eich trosglwyddo i siarad â pherson real. Fe'u defnyddir gan gwmnïoedd di-ri, oherwydd mae'n amlwg bod systemau o'r fath yn rhatach na chyflogi personau i ateb galwadau.

### Bendithion technoleg

Yn wir, mae'r dechnoleg newydd yma wedi dod â bendithion yn ei sgil ond, mae hefyd wedi achosi dieithrwch. Meddyliwch, medrwn baratoi gwasanaeth o addoliad yn hawdd iawn, a'i 'darlledu' dros y cyfryngau cymdeithasol yn ddidrafferth. Medrwn fonitro nifer y bobol a ymunodd yn y gwasanaethau torfol rheiny, ond does dim modd teimlo'r 'agosatrwydd' a'r 'gymdeithas' a geir mewn oedfa 'wyneb-yn-wyneb' lle mae dau neu dri wedi ymgynnull. Cofiaf y diweddar Barchedig John Stuart Roberts a fu'n weinidog arnaf yn Soar, Llanbed cyn iddo fynd i Adran Grefydd BBC Radio Cymru, yn dweud nad oes modd cyfranogi o 'dorri a rhannu o'r bara' a'r gwin' dros y cyfrwng torfol. Yr agosatrwydd yna a geir wrth gydaddoli. Clywaf ambell un ohonoch yn dadlau – a digon teg – bod oedfa radio, teledu, neu dros y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y sawl sy'n methu mynychu lle o addoliad, neu sydd wedi dieithrio eu hunain o gapel neu eglwys, yn well na dim gwasanaeth o gwbl. Ond ble mae'r terfyn tybed?

### Lle i dechnoleg

Mae yna le i dechnoleg, wrth gwrs ei fod e! A minnau'n weinidog ifanc yn y Tymbl Uchaf 'nôl yn '70au y ganrif ddiwetha, mi brynon ni recordydd tâp i recordio oedfaon y capel ar gyfer yr aelodau rheiny oedd yn gaeth i'w haelwydydd. Mi fyddai'r teuluoedd wedyn yn hebrwng y cyfryw rai i ymgynnull ar aelwyd ffrind er mwyn iddynt fod yng nghwmni ei gilydd i wrando ar yr oedfaon o fis i fis. Y dystiolaeth dro ar ôl y tro oedd bod y profiad o fod gyda'u yn un bendithiol.

### Ai AI yw'r ateb?

'AI' (*Artificial Intelligence* neu 'Ddeallusrwydd Artiffisial'). Fel tasai siarad a chymdeithasu â'n cyd-drigolion yn y byd hwn ddim yn ddigon, mae yna gwmnïoedd yn yr Unol Daleithiau erbyn hyn sy'n cynnig gwasanaeth galaru drwy'r dechnoleg gyfoes yma. Cyfeirir atynt fel *chatbots* lle bydd y cwmni yn ail-greu llais, delwedd a lluniau i greu 'hologram' o'r person a fu farw. Mae'r dechnoleg ddiweddara yma drwy feddalwedd ChatGPT yn medru cofio hanesion ac mae modd i'r sawl sy'n galaru i ofyn i'r rhaglen 'siarad' â nhw. Medra'r dechnoleg greu llais tebyg i lais yr un a hunodd. Mae hefyd yn bosib i unigolion anfon recordiad o'i llais a lluniau i ChatGPT ac mi wna'r system storio'r wybodaeth ar gyfer y sawl sydd yn galaru wedi iddynt hwy huno ymhen yr amser. Nawr, mae nifer o bobol yn ffeindio gwasanaeth o'r fath o gymorth, tra bod ambell un arall yn teimlo bod y galar yn dyfnhau o ganlyniad i wasanaethau electronig artiffisial o'r fath.

### Cyswllt tu hwnt i'r byd

Mae yna gwmni arall HereAfter AI yn cynnig gwasanaeth ble gall unigolyn greu portread lleisiol ac ar lun o'r ymadawedig drwy lanlwytho lluniau, fideos a recordiau sain ac yna mi fydd y dechnoleg AI yn defnyddio'r deunydd i 'siarad' a'r galarwyr fel petasai'r person yn siarad o'r 'byd arall'. Golyga felly ei bod hi'n bosib i blentyn neu oedolyn , i siarad ag aelod o'r teulu neu ffrind sydd wedi huno, gan ofyn am sut blentyndod a gafon nhw; beth oedd eu swydd gynta neu sut wnaethon nhw gyfarfod â'u cymar!

Ar fore Sul canol Awst, gwyliais eitem ar y teledu lle roedd y cyflwynydd yn sôn am y posibiliadau drwy AI o fedru siarad â Iesu, Mair, Joseff neu un o'r disgyblion! Beth nesa dwedwch?

### Help i alar?

Pam tybed yr angen am yr elfen ryfedd, newydd hon i'n cynorthwyo yn ein galar? A'i un o'r rhesymau yw nad yw cymdeithas di-gapel, cymdeithas sy'n dadlau efallai ei bod hi'n wrth-grefyddol bellach, ddim yn medru derbyn, deall a dadansoddi galar mewn ffordd ysbrydol, ystyrlon? Yn y dyddiau a fu, roedd yna offeiriad neu weinidog bron ymhob pentre a fyddai yn ymweld â'r galarus yn eu profedigaeth, i'w helpu i ddeall a gweithio drwy'r broses o alaru. Mi i fyddai'r arweinwyr crefydd rheini yn adnabod bron pob teulu yn y gymdogaeth. Y fe neu hi fyddai'n gefn i'r teulu ac i'r claf. Fe neu hi fyddai'n cymryd y gwasanaeth angladdol ac yn ymweld â'r teuluoedd yn rheolaidd wedi hynny er mwyn eu cynorthwyo i gerdded llwybr galar.

### Gofal mewn galar

Diolch, ddweda i, am fudiadau fel CRUSE: Gofal Mewn Galar. (Llinell gymorth: 0808 808 1677) Mudiadau sy'n cynnig gwasanaeth personol, 'un-i-un' i'r galarus yn ein gwlad. Duw a'n gwaredo rhag cael ein Hamericaneiddio fwyfwy drwy weld 'galar' yn cael ei drin drwy ddulliau 'AI" o gynnig gofal i'r galarus!

Gyda phrinder gweinidogion mewn eglwysi, beth tybed yw rôl a dyletswydd yr eglwys gyfan, yn ddiaconiaid ac aelodau, yn hyn o beth? Oni ddylid ffurfio tîm o leygwyr i gyflawni y dasg bwysig hon, drwy ymweld a chynnal y galarus yn ein hardaloedd? Onid yw y wedd hon yn un enghraifft lle y gall eglwys leol – boed â gweinidog neu heb weinidog – estyn allan i'r gymdogaeth ehangach ac i fod o wasanaeth i'r teuluoedd rheiny yn eu horiau anghenus nhw? Beth am fentro troi ein 'hegwan ffydd' yn weithred, a thrwy weithredu, cyflawni dysgeidiaeth Iesu yn ein cymunedau?

**Tom Evans. Peniel**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# TE TABERNACL PENCADER




Trefnwyd te prynhawn gan blant Clwb Sul Tabernacl, Pencader yn ddiweddar. Gwnaed elw o £465 tuag at waith Cymorth Cristnogol yn Nhwrci a Syria. Gweler rhai o'r plant yn y llun. Diolch am y cyfraniadau tuag at y te, ac am yr help i baratoi.

# Aelod newydd yn Saron Creunant



Braf oedd derbyn aelod newydd i Saron ar Sul 24 Medi, sef Mrs Carole Jones, Bryncoch ac yn wreiddiol o'r Creunant. Yn y llun gwelir organyddes Saron, Mrs Carole Simpson.

# Podlediad Y Cwmni Bach

Y mae cyfres o bodlediadau misol yr Annibynwyr, *Y Cwmni Bach* wedi bod yn mynd ers blwyddyn nawr, fel rhan o genhadaeth ddigidol MSP4 yr Undeb.

Mae'r podlediadau ar gael i'w gwylio ar y we neu i wrando arnynt. Sgyrsiau hamddenol a hwyliog ydynt gydag amrywiol bobl o bob cwr o Gymru am eu bywydau, eu profiadau, am eu ffydd, ac am bob mathau o bethau eraill hefyd. Does dim un o'r penodau yr un peth ac mae pob un yn werth eu clywed neu eu gwylio. Mae'r podlediadau yn ffordd i ni rannu ein straeon gyda'n gilydd, i drafod y pethau sy'n bwysig i ni heddiw. Ac wrth gwrs, mi fedrwch chi barhau â'r sgwrs ymhlith eich gilydd.

Y mis hwn ar *Y Cwmni Bach* mae Geraint Rees, Efailisaf, sef trysorydd newydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, yn rhannu ychydig o'i hanes a throeon ei yrfa gyda ni. Dyn ei filltir sgwâr ond sydd â golwg ar y byd yn grwn yw Geraint.

Yn ystod mis Medi, Arfon Jones, sy'n byw yng Nghaerdydd, oedd yn rhannu straeon a phrofiadau ei fywyd gyda ni. Y mae Arfon wedi bod yn gymwynaswr mawr â Chymru, y Gymraeg ac â Christnogaeth ac y mae ei egni a'i sêl yn parhau i fod yn fywiol ac yn heintus.

Mae modd gwylio pob un o'r penodau blaenorol eto. Ewch i chwilio i weld pwy sy'n denu'ch sylw chi. Mae'r podlediadau i'w cael ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, i'w gwylio yn ogystal ag i wrando arnynt. Maent ar gael ar gyfryngau Spotify, Apple ac YouTube hefyd.




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*